AGGCC
CSSIW

Arolygiaeth Gofal a Gwasanaethau Cymdeithasol Cymru
Care and Social Services Inspectorate Wales

# Adroddiad Arolygu Gofal Plant ar gyfer

**Pobl Bach South Wales CIC**

**Canolfan Dechrau'n Deg Sirhywi**
**Safle Ysgol Fabanod Sirhywi gynt**
**Y tu ôl i Roslan**
**Sirhywi**
**NP22 4PE**

**This report is also available in English**

**Mae'r adroddiad hwn hefyd ar gael yn Saesneg**



## Dyddiad Cyhoeddi

**Dydd Gwener, 8 Mai 2018**

***Welsh Government © Crown copyright 2018.***
*You may use and re-use the information featured in this publication (not including logos) free of charge in any format or medium, under the terms of the Open Government License. You can view the Open Government License, on the National Archives website or you can write to the Information Policy Team, The National Archives, Kew, London TW9 4DU, or email: psi@nationalarchives.gsi.gov.uk*
*You must reproduce our material accurately and not use it in a misleading context.*

## Disgrifiad o'r gwasanaeth

Cofrestrwyd Pobl Bach South Wales CIC gydag Arolygiaeth Gofal Cymru (AGC) ym mis Medi 2017 i ddarparu gofal dydd llawn ar gyfer 25 o blant rhwng dwy a phum mlwydd oed. Mae'r cwmni yn gweithredu o Ganolfan Dechrau'n Deg Sirhywi yn Nhredegar ac mae'n gweithio mewn partneriaeth â Dechrau'n Deg Blaenau Gwent. Mae'r gwasanaeth yn cynnig lleoedd i blant trwy gyllid preifat neu drwy gynllun Dechrau'n Deg. Maent yn cynnig sesiwn yn ystod y bore neu'r prynhawn (9:15am-11:45am neu 1:00pm-3:30pm) yn ogystal â chlwb brecwast ac amser cinio yn ystod tymor yr ysgol a chlwb gwyliau (9:00am-3:00pm). Mae dau gyfarwyddwr cwmni, sef Catherine Jenkins ac Emma Sheehy, sy'n Unigolion Cyfrifol yn ogystal â'r Personau â Gofal o ddydd i ddydd. Mae hwn yn lleoliad dwyieithog lle y defnyddir y Gymraeg a'r Saesneg am yn ail.

## Crynodeb o'n canfyddiadau

1. **Asesiad cyffredinol**
   Mae'r plant wedi ymgartrefu'n dda ac yn mwynhau eu hamser yn y gwasanaeth hwn sy'n cynnig amrediad da o weithgareddau i gefnogi dysgu a datblygu'r plant. Mae gan y staff ddealltwriaeth dda o anghenion unigol y plant y maent yn gofalu amdanynt a rhoddir blaenoriaeth i ddiogelu. Mae'r amgylchedd yn lân, yn cael ei gynnal a'i gadw'n dda, ac mae'n cynnwys digon o adnoddau y tu mewn a'r tu allan. Roedd angen rhoi sylw i rai o'r systemau rheoli er mwyn sicrhau eu bod yn bodloni'r gofynion ac yn darparu'r wybodaeth sydd ei hangen. Mae'r Unigolion Cyfrifol yn rhagweithiol a gwnaethant roi sicrwydd y byddai'r holl argymhellion yn derbyn sylw. Dywedodd rhieni wrthym eu bod yn hapus iawn gyda'r gwasanaeth a bod eu plant yn datblygu o ganlyniad i fynychu.

2. **Gwelliannau**
   Dyma arolygiad cyntaf y gwasanaeth

3. **Gofynion ac argymhellion**
   Nodwyd mater o ddiffyg cydymffurfio gennym yn unol â Rheoliadau Gwarchod Plant a Gofal Dydd (Cymru) 2010 (Rheoliad 31 - Darparu Gwybodaeth). Mae hyn oherwydd nad oeddent wedi hysbysu AGC ynghylch digwyddiad arwyddocaol mewn perthynas â staffio. Gan nad oedd hyn yn effeithio o gwbl ar y plant, nid ydym wedi cyflwyno hysbysiad o ddiffyg cydymffurfio yr adeg hon.

   Caiff argymhellion arfer gorau eu hamlinellu o fewn yr adroddiad a'u crynhoi ar y diwedd.

## 1. Llesiant

### Crynodeb

Mae’r plant yn mwynhau ac yn dysgu o amrywiaeth dda o weithgareddau sy'n eu hysgogi, gyda phwyslais ar ddewis rhydd. Maen nhw wedi ymgartrefu ac yn gyfforddus yn eu hamgylchoedd, ac yn ymgysylltu'n dda â chyfoedion a staff. Mae'n amlwg bod y plant yn fodlon ar sut maent yn treulio eu hamser yn y gwasanaeth. Maent yn gallu meithrin cysylltiadau cadarnhaol ac yn cael croeso. Mae'r plant yn derbyn gofal cyson a chefnogol.

### Ein canfyddiadau

### 1.1 I ba raddau y mae gan y plant lais?

Caiff plant eu hannog i wneud eu penderfyniadau eu hunain ynghylch sut maen nhw'n treulio eu hamser. Gwelsom fod eu chwarae yn hunangyfeiriedig yn bennaf a’u bod yn hyderus i symud o amgylch yr ystafell yn rhoi cynnig ar wahanol bethau, gan ofyn am gymorth pan oedd angen. Caiff y plant eu hannog i fynegi eu hunain a chaiff sgyrsiau eu hymestyn gan staff sy’n dangos diddordeb ac yn rhoi ymatebion cadarnhaol. Defnyddir y Gymraeg yn helaeth drwy gydol sesiynau ac mae nifer o'r plant yn gallu defnyddio rhywfaint o Gymraeg yn hyderus. Clywsom sawl enghraifft o'r plant yn cael eu holi beth oeddent yn dymuno ei wneud, megis aelod o’r staff yn gofyn “Hoffet ti ddod i wneud rhywfaint o blannu?” ac yn gofyn i blentyn a oedd am ddewis y gân nesaf i'w chanu. Gwrandewir ar farn y plant ac fe'i gwerthfawrogir.

### 1.2 I ba raddau mae’r plant yn teimlo’n ddiogel ac yn hapus, a’u bod yn cael eu gwerthfawrogi?

Mae’r plant yn gyfarwydd â threfn feunyddiol y gwasanaeth, sy'n rhoi ymdeimlad o sicrwydd ac o berthyn iddynt. Caiff eu cyraeddiadau eu dathlu, a gwelsom lawer o wenu a chlywsom chwerthin a geiriau cadarnhaol. Clywsom y plant yn galw aelodau'r staff wrth eu henwau, ac aeth un plentyn a oedd wedi'i gynhyrfu ychydig ar ei union at y staff am gysur a sicrwydd, a gwnaeth hyn dawelu ei feddwl. Roedd yn amlwg bod plant wedi ffurfio ymlyniad da â'r rhai sy'n gofalu amdanynt. Gwnaethom nodi bod gwaith y plant wedi'i arddangos o amgylch yr ystafell, sy'n dangos iddynt eu bod yn cael eu gwerthfawrogi ac yn rhoi ymdeimlad o berchnogaeth a pherthyn.

Mae'r plant yn teimlo'n ddiogel ac yn hapus yn y gwasanaeth hwn, sy'n eu gwerthfawrogi a'u hyrwyddo fel unigolion.

### 1.3 Pa mor dda mae’r plant yn rhyngweithio?

Mae'r mwyafrif o'r plant yn rhyngweithio ac yn cydweithredu'n dda â'u ffrindiau a'r staff, ac maen nhw'n dysgu
sut i fynegi'r hyn y maen nhw ei angen. Gwelsom enghreifftiau o blant yn gwneud ffrindiau mewn modd cadarnhaol a rhoddwyd pwyslais ar rannu. Pan ganmolwyd dau o blant am gymryd eu tro yn ystod gêm, dangosodd y plant y sticer roeddent wedi'i ddewis fel gwobr yn falch i'w gilydd ac fe aethant i ffwrdd i chwarae rhywbeth arall â'i gilydd. Yn ystod amser byrbryd, roedd plant yn aros yn amyneddgar am eu bwyd, gan siarad am yr hyn roedden nhw'n mynd i'w gael a beth yr oeddent wedi'i wneud hyd yma y diwrnod hwnnw. Pan oedd y plant yn chwarae ar eu pennau eu hunain, roeddent i'w gweld yn hapus ac ymunodd y plant eraill â nhw yn fuan wedi hynny. Roedd y plant yn chwilfrydig ac yn hyderus i ddod atom. Er enghraifft, gofynnodd un plentyn beth oeddem ni'n gwneud yno a gofynnodd wedyn a fyddem yn dymuno chwarae gyda nhw, gan ddweud "Dere ymlaen te, dewch i mewn i fy nhŷ", gan 'goginio' amrywiaeth o 'fwyd' i ni tra'n disgrifio pob eitem! Dywedodd plentyn arall wrthym "Dyma fy ffrindiau i gyd" gan bwyntio at y plant eraill. Mae gweithgareddau ysgogol a arweinir gan blant yn annog cydweithredu a datblygu hunan fynegiant.

**1.4 I ba raddau mae'r plant yn mwynhau eu chwarae a'u dysgu?**

Mae gan y plant gyfleoedd i ddatblygu sgiliau newydd o fewn yr ystod o brofiadau chwarae a dysgu a ddarperir. Canfuom fod y rhan fwyaf o blant yn ddysgwyr chwilfrydig a brwd sy'n gwerthfawrogi'r cyfle i archwilio'r amgylchedd, naill ai'n annibynnol neu mewn grwpiau a arweinir gan y staff. Roedd y pwyslais yn bennaf ar chwarae rhydd, ond cafwyd gweithgareddau strwythuredig a arweiniwyd gan oedolion hefyd y gwnaeth y plant gymryd rhan ynddynt a'u mwynhau. Roedd chwarae rhydd a oedd yn llifo i'r ardd yn caniatáu i'r plant chwarae y tu allan yn y gegin fwd neu ar y beiciau, er enghraifft, neu y tu mewn yn gwneud celf a chrefft gyda'i gweithiwr allweddol. Roedd y cyfleoedd chwarae yn amrywio o chwarae â dŵr a thywod, chwarae â thoes, chwilio am fwystfilod bach neu bosau, ac roedd y plant yn mwynhau pob un ohonynt yn ôl pob golwg. Roeddent yn awyddus i gymryd rhan yn y storïau a'r caneuon a gwnaethant glapio ac ymuno â'r symudiadau. Caiff datblygiad cyffredinol y plant ei wella gan ansawdd y profiadau chwarae a gynigir.

**1.5 Pa mor dda mae'r plant yn datblygu, dysgu a dod yn annibynnol?**

Mae'r plant yn cael eu hysgogi i ddewis a chyfeirio eu chwarae eu hunain yn rhydd. Gwelsom eu bod yn gyfarwydd â'r drefn felly roeddent yn gwybod beth i'w ddisgwyl ac yn rhagweld dychwelyd i'r gweithgareddau a oedd yn rhoi pleser iddynt. Roeddent yn dangos mentergarwch i orffen tasgau, oherwydd roeddent yn gwerthfawrogi'r ymdeimlad o gwblhad a boddhad a oedd yn dilyn. Canfuom fod y rhan fwyaf o blant yn gwneud cynnydd da ac maent yn hyderus i roi cynnig ar brofiadau newydd ac ennill ymdeimlad o falchder yn eu cyflawniadau. Maen nhw hefyd yn mynd drwy'r broses o ddatblygu sgiliau hunangymorth newydd. Er enghraifft, roedd y plant yn hapus wrth ddewis a pharatoi eu byrbryd eu hunain ac wrth helpu i arllwys eu diodydd eu hunain. Roedd y plant yn defnyddio'r toiled hefyd ac yn golchi eu dwylo'n annibynnol, gan ofyn am gymorth pe bai angen.

Mae hunan-barch y plant yn cael ei hyrwyddo o ganlyniad i'r cyfleoedd ar gyfer hunan ddatblygu a gynigir.

## 2. Gofal a Datblygiad

### Crynodeb

Mae'r staff yn ymwybodol o'u rolau a'u cyfrifoldebau wrth ddarparu gofal priodol, ac maen nhw'n cyflawni eu dyletswyddau'n dda i sicrhau bod y plant yn teimlo'n hapus ac wedi ymgartrefu. Mae grŵp sefydlog o staff sy'n cael cyfleoedd i sicrhau bod eu gwybodaeth broffesiynol yn cyd-fynd â'r safonau cyfredol. Mae systemau effeithiol yn sicrhau bod diogelu ac iechyd a diogelwch y plant yn cael eu hystyried.

### Ein canfyddiadau

### 2.1 Pa mor dda mae'r ymarferwyr yn cadw'r plant yn ddiogel ac yn iach?

Mae systemau ar waith sy'n hyrwyddo iechyd a diogelwch y plant. Mae'r staff yn cael eu hyfforddi i ddilyn gweithdrefnau diogelu a dangosodd ein trafodaethau â'r staff eu bod yn meddu ar y wybodaeth a'r sgiliau i wneud atgyfeiriadau i'r asiantaeth briodol pan fo angen, a'u bod yn ymwybodol o'u cyfrifoldebau o dan y Ddyletswydd Atal mewn perthynas â radicaleiddio. Cedwir cofnodion clir o bryderon ac fe'u hadolygir yn rheolaidd er mwyn darganfod unrhyw batrymau. Mae cofnodion o ddigwyddiadau, damweiniau a chofnodion o anafiadau sydd eisoes yn bodoli yn cael eu cynnal, er inni argymell y dylai'r cofnodion hyn gael eu crynhoi'n rheolaidd a'u gwerthuso i ganfod unrhyw dueddiadau a allai ddigwydd. Roedd y sampl o gofnodion damweiniau a digwyddiadau a welsom yn nodweddiadol ar gyfer oedran a cham datblygu'r plant. Mae'r holl staff wedi mynychu hyfforddiant cymorth cyntaf pediatrig. Mae'r gwasanaeth wedi'i gofrestru gyda Swyddfa'r Comisiynydd Gwybodaeth fel rhan o'u dyletswyddau diogelwch gwybodaeth.  Gwnaethom nodi bod y gwasanaeth yn cefnogi mentrau bwyta'n iach megis y Cynllun Cyn-ysgol Iach a Chynaliadwy a'r Wobr Byrbrydau Iach. Gwelsom fyrbrydau maethlon, dŵr yfed ffres a llaeth yn cael eu darparu yn ystod amser byrbryd, ond gwnaethom argymell y dylai dŵr yfed ffres gael ei gynnig drwy gydol y sesiwn er mwyn i'r plant helpu eu hunain. Cafodd hyn ei gywiro yn ystod yr arolygiad a dywedodd yr arweinwyr wrthym mai esgeulustod oedd hyn y diwrnod hwnnw gan fod hyn yn cael ei wneud fel arfer. Gwelsom fod cyfleoedd rheolaidd i'r plant olchi eu dwylo a bod hyn yn rhan o'r drefn feunyddiol ac roedd y plant yn dilyn yr arferion hyn yn dda. Roedd hylendid y geg da yn cael ei arfer hefyd fel rhan o'r rhaglen Cynllun Gwên ac aeth y staff ati i wneud y profiad hwn yn hwyliog er mwyn diddanu'r plant.

Mae'r plant yn cael eu cadw'n iach ac yn ddiogel o ganlyniad i'r gweithdrefnau effeithiol sy'n cael eu rhoi ar waith.

### 2.2 Pa mor dda mae'r ymarferwyr yn rheoli rhyngweithio?

Mae staff yn dilyn polisi rheoli ymddygiad y gwasanaeth, sy'n amlinellu pwysigrwydd strategaethau rheoli ymddygiad cadarnhaol ac effeithiol i hybu llesiant plant. Roeddent yn rhyngweithio'n gyson ac yn barchus â'r plant mewn modd tawel a thyner, ac

roeddent yn dangos esiamplau o ymddygiad da. Clywsom staff yn defnyddio lleisiau tawel ac iaith gyfeillgar a oedd yn helpu i feithrin perthnasau ymddiriedus a llwyddiannus â'r plant. Er enghraifft, roedd plentyn yn stompio o gwmpas wrth chwarae deinosoriaid gydag aelod o'r staff ac fe bwmpiodd yn erbyn plentyn arall. Dywedodd yr aelod o staff "Beth am inni edrych â'n llygaid a bod yn ofalus gan ein bod ni'n ddeinosoriaid cyfeillgar, onid ydym?" Pan ymatebodd y ddau blentyn yn dda, cawsant eu canmol a pharhaodd y chwarae. Gwelsom y staff yn tynnu sylw plant a oedd yn dangos ymddygiad digroeso ac yn dwyn perswâd arnynt i gymryd rhan mewn gweithgareddau eraill o'u dewis, a oedd yn atal y sefyllfa rhag mynd yn waeth Roedd y staff hefyd yn hyrwyddo ymddygiad cadarnhaol drwy ganmol ac annog y plant gan ymateb â thegwch. Dangosodd ein harsylwad SOFI fod staff yn gwrando'n weithredol ar blant, gan barchu eu safbwyntiau.

Caiff datblygiad emosiynol y plant ei wella gan y rhyngweithio cadarnhaol y maent yn ei brofi ag ymarferwyr.

### 2.3 Pa mor dda mae ymarferwyr yn hybu chwarae, dysgu a datblygiad plant, ac yn diwallu eu hanghenion unigol?

Mae'r staff yn feithringar ac yn gefnogol i blant ac yn gweithio'n agos gyda rhieni er mwyn deall anghenion unigol y plant. Dywedwyd wrthym fod gweithwyr allweddol yn gyfrifol am sicrhau bod gwybodaeth yn cael ei chadw'n gyfredol a'u bod yn monitro datblygiad a chynnydd y plant yn agos. Gwelsom enghreifftiau o arsylwadau yn cael eu cynnal yn rheolaidd, gan gynnwys arsylwadau manwl wrth gyrraedd, pan fydd plentyn yn gadael y gwasanaeth, a phan maent yn symud i'r ysgol. Dywedwyd wrthym fod Cydlynydd Anghenion Dysgu Ychwanegol ar gael i gydlynu cymorth i unrhyw blant sydd angen cymorth ychwanegol, sy'n cynnwys paratoi cynllun chwarae unigol, adolygiadau dilynol a chyfathrebu gydag Is-grŵp Anghenion Ychwanegol Blaenau Gwent. Dywedodd rhiant wrthym fod cynllun penodol yn cael ei roi ar waith i gefnogi ei phlentyn o fewn maes a oedd yn peri anawsterau iddo ac fe ddisgrifiodd y cynnydd a wnaed gan ei phlentyn ers iddo ddechrau. Dywedodd rhiant arall wrthym fod y system gweithiwr allweddol yn gweithio'n dda a'i fod yn derbyn diweddariadau rheolaidd o ran datblygiad ei blentyn. Mae plant yn cael eu cynorthwyo i ddysgu am yr hyn sy'n wahanol a'r hyn sy'n debyg rhwng unigolion o ddiwylliannau gwahanol. Roedd adnoddau'n cynnwys doliau amlddiwylliannol ac roedd llyfrau ar gael, sy'n hyrwyddo gwybodaeth plant am amrywiaeth. Dywedwyd wrthym eu bod yn mwynhau dathlu gwyliau megis Diwali a'r Flwyddyn Newydd Tsieineaidd, ynghyd â'r gwyliau Cristnogol. Roedd y staff yn sicrhau bod gan y plant gyfleoedd i wneud ymarfer corff, o dan do ac yn yr awyr agored. Gwelsom y plant yn mwynhau dawnsio a chwarae y tu mewn ac yn rhedeg o gwmpas y tu allan, gan chwarae gyda'r offer a'r cerbydau ag olwynion. Gwelsom y staff yn defnyddio'r offer ochr yn ochr â'r plant er mwyn annog eu chwarae a’u dysgu. Roedd y plant wrth eu bodd yn cael y cyfle i wisgo dillad tywydd gwlyb priodol a neidio yn y pyllau mwdlyd y tu allan!

Mae anghenion datblygu’r plant yn cael eu diwallu'n dda gan staff sy'n fedrus ac wedi'u hyfforddi'n dda.

## 3. Yr Amgylchedd

### Crynodeb

Mae'r amgylchedd yn ddiogel, yn groesawgar ac yn cael ei gynnal a'i gadw'n dda. Mae'r gwasanaeth yn cael ei gynnal mewn canolfan Dechrau'n Deg ac mae'n cynnwys dodrefn ac adnoddau o ansawdd da. Mae'r arweinwyr a'r staff yn gwneud defnydd da o'r gofod a gynigir sydd wedi'i gynllunio'n dda, gan sicrhau bod ystyriaethau iechyd a diogelwch yn cael eu hystyried.

### Ein canfyddiadau

### 3.1 Pa mor dda mae arweinwyr yn sicrhau diogelwch yr amgylchedd?

Mae’r staff yn sicrhau bod yr adeilad yn ddiogel ac nad oes unrhyw fynediad yn cael ei ganiatáu heb awdurdod. Gwelsom fod yr holl bobl sy'n ymweld â'r gwasanaeth yn cael eu cofnodi. Roedd y drysau a'r gatiau yn cael eu cloi ac roedd y plant yn cael eu goruchwylio'n ofalus pan oeddent yn chwarae y tu allan. Er bod cofrestri presenoldeb yn cael eu cadw'n gyson, gwnaethom argymell bod amseroedd cyrraedd a gadael yn cael eu cynnwys hefyd. Cyflawnwyd hyn yn dilyn yr arolygiad. Mae'r rhestr wirio o asesiadau risg yn cael ei chynnal bob dydd ac roedd rhestrau gwirio o ddyletswyddau'r staff yn cael eu harddangos, a oedd yn nodi cyfrifoldebau unigol ar gyfer cynnal a chadw glanweithdra a diogelwch yr amgylchedd. Dywedwyd wrthym fod glanhawr yn cael ei gyflogi hefyd ar gyfer yr adeilad cyfan. Gwelsom fod gweithdrefnau diogelwch tân ar waith a bod ymarferion tân wedi cael eu cynnal oddeutu bob tri mis. Fodd bynnag, gwnaethom argymell bod enwau pawb sy'n cymryd rhan yn yr ymarferion yn cael eu cofnodi a bod yr arfer yn cael ei adolygu i gynnwys rhestr lawn o'r hyn y byddent yn ei wneud pe bai tân. Gwelsom fod gwiriad diogelwch nwy wedi cael ei gwblhau. Gwnaethom nodi bod dull archwilio Iechyd Cyhoeddus Cymru yn cael ei ddefnyddio i fonitro'r gwaith o atal a rheoli heintiau a bod yr arweinwyr yn ymwybodol y disgwylir i'w harchwiliad gael ei adolygu ym mis Hydref 2018.

Mae'r plant yn cael eu cadw'n ddiogel o fewn yr amgylchedd sy'n ddiogel ac yn cael ei gynnal a'i gadw'n dda.

### 3.2 Pa mor dda mae’r arweinwyr yn sicrhau addasrwydd yr amgylchedd?

Mae arweinwyr yn sicrhau bod amgylchedd cyfoethog a chroesawgar yn cael ei ddarparu ar gyfer chwarae a dysgu'r plant. Canfuom fod gweithgareddau'n cael eu trefnu'n dda a'u cyflwyno yn unol â saith maes dysgu'r Cyfnod Sylfaen, gan sicrhau cyfleoedd i estyn sgiliau a phrofiadau plant. Gwelsom fod y brif ystafell a'r cyfleusterau awyr agored yn ddeniadol ac yn ysgogol. Roedd y man awyr agored yn cael ei ddefnyddio yn ystod pob sesiwn, a cheir mynediad ato drwy ddrysau llithro mawr yn y

brif ystafell chwarae. Roedd y plant yn rhydd i fynd a dod fel yr oeddent yn dymuno am y rhan fwyaf o'r sesiwn ac roeddent yn cael eu hannog i ddod i mewn yn barod am fyrbryd. Roedd yr arwyddion a'r hysbysiadau a oedd wedi'u harddangos yn ddwyieithog neu yn Gymraeg yn unig, sy'n annog pobl i gydnabod a defnyddio'r Gymraeg. Roedd toiledau a adeiladwyd yn bwrpasol i blant yn hygyrch iawn er mwyn annog annibyniaeth. Gwnaethom nodi bod digon o le i gynnal sgyrsiau cyfrinachol rhwng staff neu gyda rhieni pe bai angen gan fod ystafelloedd eraill yn yr adeilad nad ydynt yn cael eu defnyddio gan y gwasanaeth.

Mae ansawdd yr amgylchedd yn cynnig cyfleoedd dysgu a phrofiadau da i'r plant.

### 3.3 Pa mor dda mae arweinwyr yn sicrhau ansawdd yr adnoddau a'r offer?

Mae arweinwyr yn sicrhau bod y dodrefn, y cyfarpar, y teganau a'r deunyddiau i gyd yn addas i anghenion y plant. Roedd cadeiriau a byrddau maint plant yn sicrhau bod y plant yn gyfforddus ac yn gartrefol wrth chwarae. Gwelsom fod cyflenwad amrywiol o adnoddau hygyrch ar gael a oedd yn addas i oedran y plant i gefnogi nodau dysgu'r Cyfnod Sylfaen. Roedd y plant yn hyderus i ddefnyddio ac yn gyfarwydd â'r adnoddau a oedd yn cael eu storio ar lefel isel a'u labelu'n glir i helpu'r plant nodi'r cynnwys. Gwnaethom nodi bod yr adnoddau yn lân ac yn cael eu cynnal a'u cadw'n dda. Roedd y plant a'r staff yn defnyddio byrddau a chadeiriau lefel isel yn ystod amseroedd prydau bwyd a oedd yn annog rhyngweithio cymdeithasol. Roedd amrywiaeth eang o deganau, gemau a deunyddiau gwisgo i fyny yr oedd y plant yn gwneud defnydd da ohonynt. Roedd ystod dda o weithgareddau hefyd, gan gynnwys posau, teganau synhwyraidd, cornel gartref, teganau adeiladu ac adnoddau creadigol yr oedd y plant yn mwynhau eu defnyddio yn ôl pob golwg. Roedd y man awyr agored hefyd yn cynnig cyfleoedd chwarae a dysgu hyfryd, gan gynnwys cegin fwd, byrddau sialc, tai chwarae ac offer i annog gweithgareddau corfforol.

Mae profiadau dysgu'r plant yn cael eu gwella o ganlyniad i'r amrediad eang o adnoddau ac offer sydd ar gael iddynt.

# 4. Arweinyddiaeth a Rheolaeth

### Crynodeb

Canfuom fod y gwasanaeth wedi datblygu nifer o bolisïau a gweithdrefnau i'w helpu i reoli ei fusnes a monitro ansawdd. Fodd bynnag, canfuom fod rhai heriau wedi bod ar gyfer yr holl staff wrth i'r gwasanaeth sefydlu ei hun, sydd wedi effeithio ar ansawdd rhai elfennau yn y thema hon. Rydym wedi nodi'r rhain fel meysydd i'w gwella. Mae gan y ddau berson â gofal berthynas waith gref ac maen nhw'n awyddus i ddatblygu'r gwasanaeth a gynigir i blant. Dywedodd y staff wrthym eu bod yn teimlo eu bod yn cael eu cefnogi a bod y bartneriaeth â rheini yn gryf iawn.

### Ein canfyddiadau

### 4.1 Pa mor effeithiol yw'r arweinyddiaeth?

Mae gan arweinwyr syniadau ar gyfer datblygu'r gwasanaeth ac mae eu gweledigaeth wedi'i rhannu mewn datganiad o ddiben clir sy'n rhoi darlun cywir o'r gwasanaeth a ddarperir. Gwnaethom sylweddoli bod rhif ffôn ar goll o'r ddogfen, a chywirwyd hyn ar unwaith. Gwelsom fod gwybodaeth ar gael mewn amrywiaeth o fformatau, megis pecyn gwybodaeth i rieni, sgyrsiau wyneb yn wyneb, hysbysfyrddau, taflenni dyddiaduron dyddiol, newyddlenni a nosweithiau agored. Gwnaethom archwilio sampl o gontractau'r plant a chanfuom fod y rhan fwyaf ohonynt wedi'u cwblhau'n llawn, er inni argymell y dylid cymryd gofal i sicrhau nad oes unrhyw wybodaeth yn cael ei cholli. Canfuom fod y rhan fwyaf o bolisïau a gweithdrefnau yn cynnwys gwybodaeth briodol ond o bryd i'w gilydd maent yn cyfeirio at hen wasanaeth a gynhaliwyd gan y darparwr. Dylai'r rhain gael eu newid er mwyn osgoi dryswch. Gwelsom fod y grŵp staff yn gweithio'n dda fel tîm a dywedodd y staff y buom yn siarad â nhw eu bod yn teimlo eu bod yn cael eu cefnogi yn eu swyddogaethau a bod eu safbwyntiau’n cael eu hystyried bob amser. Gwnaethant gadarnhau'r hyn a ddywedodd yr arweinwyr wrthym ynghylch cyfnod ansefydlog diweddar lle gwnaed rhai newidiadau staffio a dywedon nhw wrthym yn glir eu bod yn teimlo bod y mater wedi cael ei reoli mewn modd proffesiynol a theg, gyda chymorth gan gwmni Adnoddau Dynol. Er ein bod yn teimlo bod hyn wedi cael rhywfaint o effaith ar y staff a rhai agweddau ar arweinyddiaeth a rheolaeth, mae'r materion wedi'u cydnabod gan yr unigolion cyfrifol ac nid ydym o'r farn bod hyn wedi effeithio ar y plant. Nid ydym felly wedi cyflwyno hysbysiad o ddiffyg cydymffurfio ar yr achos hwn. Gwelsom fod hyfforddiant staff yn cael ei gadw'n gyfredol a bod adnewyddiadau yn cael eu trefnu fel y bo angen. Gwelsom fod y gwasanaeth yn gweithio tuag at ddarparu'r cynnig gweithredol o ran darparu gwasanaeth yn y Gymraeg yn ôl yr angen.

Mae'r meysydd sydd angen eu gwella yn cael eu cydnabod ac maent yn benderfynol i barhau i ddatblygu arferion gweithio er mwyn sicrhau bod plant yn derbyn gofal o ansawdd da o fewn gwasanaeth sy'n esblygu.

## 4.2 Pa mor effeithiol yw'r gwaith o hunanwerthuso a chynllunio ar gyfer gwella?

Mae gan y gwasanaeth systemau ar waith ar gyfer hunanwerthuso a chynlluniau ar gyfer gwelliannau yn y dyfodol ac maent yn agored i awgrymiadau o ran sut y gall y systemau hyn gael eu datblygu ymhellach. Gwnaethant gadarnhau eu bod yn ymwybodol o'r angen i gwblhau adolygiad ansawdd gofal ar ddiwedd y flwyddyn gyntaf ar ôl cofrestru, a fydd yn cynnwys safbwyntiau'r plant, y rheini, a'r staff. Gwelsom Gynllun Gweithredol ar gyfer y gwasanaeth a gwnaethom argymell y dylid ei ddyddio a chynnwys cynllun gweithredu. Gwnaethpwyd hyn ar unwaith yn dilyn yr arolygiad. Dywedwyd wrthym nad yw'r gwasanaeth wedi derbyn unrhyw gwynion ers cofrestru, er bod ganddynt system ar waith pe bai'r angen yn codi. Dywedwyd wrthym hefyd bod y gwasanaeth yn cwblhau'r 'Graddfa Fesur Amgylchedd Plentyndod Cynnar' (ECERS) a'r 'Raddfa Fesur Amgylchedd Babanod/Plant Bach' (ITTERS) i hyrwyddo'r gwelliant o ran ansawdd a gynlluniwyd gyda chymorth gan y Gwasanaeth Cyflawni Addysg. Dangosodd y cofnodion a chadarnhaodd y staff eu bod yn cael cyfle i gyfrannu at gynlluniau a syniadau ar gyfer gwella'r gwasanaeth.

Mae arweinwyr yn ymwybodol o'u cyfrifoldeb i werthuso a chynllunio ar gyfer gwella er mwyn sicrhau bod y plant yn profi gwasanaeth sy'n datblygu.

## 4.3 Pa mor effeithiol mae ymarferwyr, staff ac adnoddau eraill yn cael eu rheoli?

Mae'r gwasanaeth yn elwa ar aelodau staff cymwys iawn sy'n meddu ar brofiad addas. Mae ffeiliau'r staff a'r wybodaeth a gedwir yn y feithrinfa yn dangos bod gwiriadau cymhwysedd yn cael eu cynnal cyn i bob unigolyn ddechrau gweithio yno. Fodd bynnag, gwnaethom nodi nad oedd disgrifiadau swyddi yn ffeiliau'r staff. Dywedodd yr unigolion cyfrifol fod yr holl staff wedi derbyn eu disgrifiadau swyddi, ond nad oedd copïau wedi cael eu cadw ar ffeil. Cywirwyd hyn yn dilyn yr arolygiad ac anfonwyd copi at AGC. Roedd yr holl wiriadau gan y Gwasanaeth Datgelu a Gwahardd ar waith yn ôl yr angen. Dywedodd y staff wrthym fod amrywiaeth o hyfforddiant ar gael iddynt a'u bod yn cael eu hannog i barhau â'u datblygiad proffesiynol. Dywedodd y staff wrthym hefyd bod polisi drws agored ar waith a chyfathrebu parhaus ag arweinwyr. Dywedodd y staff wrthym eu bod yn trafod unrhyw broblemau sydd ganddynt yn rheolaidd â'u rheolwyr a'u bod yn hyderus i ofyn am gymorth. Fodd bynnag, nid oedd sesiynau goruchwylio ffurfiol wedi cael eu cynnal eleni hyd yn hyn o ganlyniad i rai problemau o ran adnoddau dynol yr oeddent yn eu hwynebu, fel yr amlinellwyd uchod. Gwnaethom argymell y dylai sesiynau goruchwylio gael eu ffurfioli a'u cynnal yn rheolaidd o hyn ymlaen. Gwnaethom nodi bod cyfarfodydd staff wedi cael eu cynnal, ond bod y cofnodion yn achlysurol, felly gwnaethom drafod yr angen i'r rhain fod yn fwy cyson. Cynigir gwasanaeth cofleidiol i'r plant sy'n mynychu ysgol leol. Ar hyn o bryd un aelod o'r staff sy'n gyfrifol am gludiant

ysgol. Cytunodd yr arweinwyr bod arnynt angen cynllun wrth gefn os nad oedd yr aelod o'r staff ar gael. Yn yr un modd, nid oes unrhyw ddirprwy unigolyn â gofal ar hyn o bryd. Er bod dau Unigolyn Cyfrifol sy'n bersonau â gofal hefyd, gwnaethom argymell y dylent ystyried penodi dirprwy fel sy'n ofynnol yn ôl y Safonau Gofynnol Cenedlaethol. Gwelsom fod y tîm yn gweithio'n dda gyda'i gilydd, gan gynorthwyo'i gilydd i sicrhau bod y sesiynau'n rhedeg yn llyfn a bod anghenion plant yn cael blaenoriaeth.

Mae rheoli'r ymarferwyr a’r adnoddau mewn modd effeithiol yn sicrhau bod y plant yn derbyn gwasanaeth ymatebol o ansawdd da. Mae angen gwneud rhai gwelliannau.

### 4.4 Pa mor effeithiol yw partneriaethau?

Mae'r gwasanaeth wedi datblygu systemau i hyrwyddo cyfathrebu clir ac i sefydlu ymddiriedaeth. Dywedodd y rhieni wrthym eu bod yn cael y wybodaeth ddiweddaraf ac yn cael eu hannog i fod yn bartneriaid gweithredol o ran datblygiad a dysgu eu plentyn. Dywedodd un rhiant y bydd hi'n drist iawn pan fydd ei phlentyn yn gadael y gwasanaeth i ddechrau yn yr ysgol. Dywedwyd wrthym fod yr arweinwyr yn trefnu digwyddiadau 'Rhieni a Phlant Gyda’i Gilydd ‘ (PACT) a nosweithiau rhieni yn rheolaidd. Mae gweithwyr allweddol yn defnyddio gwybodaeth a roddir gan rieni a gweithwyr proffesiynol i gynllunio sesiynau cychwynnol, ymgysylltu â'r plentyn, a hwyluso'r broses o ymgartrefu. Roedd tystiolaeth bod gan y gwasanaeth gysylltiadau da ag addysg, gan ddarparu cymorth i blant ag anghenion dysgu ychwanegol, ac mae cyswllt â chydweithwyr Dechrau'n Deg yn gyson.

Mae'r arweinwyr yn sicrhau eu bod yn cynnal partneriaethau gwerth chweil er mwyn sicrhau’r buddiannau mwyaf posibl i'r plant yn y gwasanaeth.

# 5. Gwelliannau sydd eu hangen ac a argymhellir yn dilyn yr arolygiad hwn

## 5.1 Meysydd o ddiffyg cydymffurfio a nodwyd mewn arolygiadau blaenorol

Dim. Dyma'r arolygiad cyntaf ers cofrestru.

## 5.2 Argymhellion ar gyfer gwella

Trafodwyd yr argymhellion arfer canlynol:

- Dylid sicrhau bod AGC yn cael gwybod am unrhyw ddigwyddiadau arwyddocaol sy'n codi;
- dylid sicrhau bod damweiniau a digwyddiadau'n cael eu gwerthuso'n rheolaidd er mwyn gweld a oes unrhyw batrymau a allai ddigwydd;
- dylid adolygu'r gweithdrefnau ymarferion tân i sicrhau bod y plant yn cael ymarfer llawn a dylid cynnwys enwau'r plant sy'n cymryd rhan mewn ymarferion tân yn eu cofnodion;
- sicrhau bod sesiynau goruchwylio staff a chyfarfodydd staff yn cael eu cynnal a'u cofnodi'n gyson;
- ystyried cyflogi dirprwy berson â gofal;
- ystyried defnyddio aelod ychwanegol o staff i fynd â phlant i'r ysgol a’u casglu;
- sicrhau bod contractau'r plant yn cynnwys yr holl wybodaeth ofynnol bob amser a dylai'r
- holl ddogfennau adlewyrchu enw'r lleoliad yn gywir ac ni ddylent gynnwys gwybodaeth mewn perthynas â hen wasanaeth a redwyd gan y darparwr.

## 6. Sut y gwnaethom gynnal yr arolygiad hwn

Roedd hwn yn arolygiad ôl-gofrestru llawn a gynhaliwyd fel rhan o'n hamserlen arferol o arolygiadau. Gwnaethom hefyd ystyried pryder anhysbys a godwyd gyda ni cyn yr arolygiad, ac roeddem yn fodlon ar ein canfyddiadau.

- Gwnaeth un arolygydd gynnal un ymweliad dirybudd â'r gwasanaeth. Gwnaethom dreulio cyfanswm o saith awr yn y gwasanaeth yn arsylwi ar y plant a'r gofal y maent yn ei dderbyn. Rhoddwyd adborth i'r ddau Unigolyn Cyfrifol dros y ffôn. Gwnaed arsylwadau tu fewn ac yn yr awyr agored a defnyddiwyd ein dull SOFI 2 i gasglu tystiolaeth o ymgysylltiad y plant a'r gofal sy'n cael ei ddarparu gan y staff;
- gwnaethom adolygu gwybodaeth a gedwir gan AGC;
- gwnaethom gynnal arolygiad gweledol o'r safle;
- gwnaethom siarad â phlant, staff a chwe rhiant drwy gydol y dydd;
- gwnaethom edrych ar amrywiaeth o gofnodion gan gynnwys ffeiliau'r staff, cofnodion y plant, a sampl o gofnodion eraill a gedwir yn y lleoliad. Roedd y rhain yn cynnwys y datganiad o ddiben, rhai polisïau a gweithdrefnau, cofrestri presenoldeb a'r llyfr cofnodi ymwelwyr.

Ceir gwybodaeth bellach am yr hyn yr ydym yn ei wneud ar ein gwefan, www.aggcc.org.uk

## 7. Ynglŷn â'r gwasanaeth

| | |
|---|---|
| **Y math o ofal a ddarperir** | **Gofal dydd plant**<br>**Gofal dydd llawn** |
| **Unigolyn cyfrifol** | **Catherine Jenkins**<br>**Emma Sheehy** |
| **Person â gofal** | **Emma Sheehy**<br>**Catherine Jenkins** |
| **Uchafswm y lleoedd a gofrestrwyd** | **25** |
| **Ystod oedran y plant** | **2 – 5 mlwydd oed** |
| **Oriau agor** | **8.15-9.15am – Clwb Brecwast**<br>**9.15-11.45am – Sesiwn y bore**<br>**12.00-1.00pm – Clwb cinio**<br>**1.00-3.30pm Sesiwn y prynhawn**<br>**Mae clwb gwyliau ar gael hefyd yn unol â'r galw** |
| **Iaith weithredol y gwasanaeth** | **Y ddwy iaith** |
| **Dyddiad arolygiad blaenorol AGGCC** | **Dyma'r arolygiad cyntaf ers cofrestru** |
| **Dyddiad yr ymweliad arolygu hwn** | **16 Mawrth 2018 ac adborth dros y ffôn ar 23 Mawrth 2018** |
| **Ydy hwn yn wasanaeth Dechrau'n Deg?** | **Mae'r gwasanaeth yn cynnig cyfuniad o leoedd Dechrau'n Deg a lleoedd preifat** |
| **A yw'r gwasanaeth yn darparu addysg y blynyddoedd cynnar ar gyfer plant tair a phedair blwydd oed?** | **Nac ydy** |
| **Ydy'r gwasanaeth hwn yn darparu cynnig gweithredol y Gymraeg?** | **Mae hwn yn wasanaeth sy'n gweithio tuag at ddarparu cynnig gweithredol y Gymraeg ac mae'n cynnig gwasanaeth dwyieithog. Rydym yn argymell bod darparwr y gwasanaeth yn ystyried** ***'Mwy na Geiriau: Fframwaith Strategol Olynol ar gyfer Gwasanaethau Cymraeg mewn Iechyd, Gwasanaethau Cymdeithasol a Gofal Cymdeithasol'*** **Llywodraeth Cymru.** |
| **Gwybodaeth ychwanegol:Dim** | |